Newydd

# Y Safon Gwasanaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym ni yn Newydd yn ymroddedig i drin pawb y deuwn i gysylltiad â hwy yn deg. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sy'n gwneud cais i ni am gartref, unrhyw un sy'n gwneud cais i ni am unrhyw wasanaeth, pob tenant a defnyddiwr gwasanaeth presennol, pob ymgeisydd am swydd a phob aelod o'r staff a'r Bwrdd.

Mae gennym Bolisi Cyfle Cyfartal a rhoddwn ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith mewn nifer o ffyrdd.

**Os gwnewch gais i fyw yn un o'n hanheddau neu os ydych eisoes yn un o'n preswylwyr neu os ydych yn gwneud cais i'n gwasanaethau cymorth byddwn yn:**

- Gwneud yn siŵr fod ein hardaloedd derbynfa a'n swyddfeydd yn rhwydd i chi eu cyrraedd a mynd o'u hamgylch
- Rhoi'r wybodaeth rydych ei hangen, mewn ffyrdd sy'n rhwydd i chi ei deall
- Rhoi ystyriaeth i unrhyw anghenion neilltuol sydd gennych, pan osodwn un o'n anheddau ac unwaith eich bod yn un o'n tenantiaid
- Byddwn yn monitro ein gwasanaethau i sicrhau nad ydynt yn anfwriadol yn rhoi rhai grwpiau o bobl dan anfantais a nodi ffyrdd y medrwn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn fwy effeithlon
- Gweithredu'n brydlon ac effeithlon os ydych yn wynebu harasiaeth lle'r ydych yn byw
- Dim ond gweithio yn gyda chontractwyr ac asiantaethau eraill sy'n rhannu ein hymrwymiad i fod yn deg i bawb

## Os gwnewch gais i ni am swydd neu os ydych eisoes yn aelod o staff byddwn yn:

- Recriwtio a hyrwyddo staff yn seiliedig ar eu gallu ac addasrwydd i wneud y gwaith
- Darparu hyfforddiant a chyfleoedd eraill i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau
- Gwneud yn siŵr fod yr offer angenrheidiol gennych i wneud eich swydd yn effeithlon
- Gweithredu'n brydlon ac effeithlon os ydych yn wynebu harasiaeth yn y gwaith
- Byddwn yn monitro ein harferion recriwtio i sicrhau nad ydym yn rhoi rhai grwpiau o bobl dan anfantais yn anfwriadol a nodi ffyrdd y medrwn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn fwy effeithlon

## Gweithio gydag Eraill

- Byddwn yn ymgynghori gyda'n staff, cwsmeriaid a rhanddeiliaid i ganfod ffyrdd i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau allanol a phartneriaid i wella ein hymagwedd at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Yr hyn a ddisgwyliwn gan eraill

Mae trin pawb yn deg yn broses dwyffordd. Byddwn yn gwneud popeth a fedrwn fel sefydliad. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd aelodau unigol o'n Bwrdd, staff, contractwyr, tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a lesddeiliaid yn gwneud popeth a fedrant i drin pobl yn deg hefyd.

## Sicrhau cynnydd

Byddwn yn monitro'r cynnydd yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein hymrwymiadau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn hefyd yn gosod nodau i'n hunain i'w cyflawni a'u hadolygu ar sail gyson ac wedi'i gynllunio.